

## **PAPUR AR GYFER YMCHWILIAD PWYLLGOR NEWID HINSAWDD, AMGYLCHEDD A MATERION GWLEDIG CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU I REOLI ARDALOEDD MOROL GWARCHODEDIG YNG NGHYMRU**

### **Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

#### **Rheoli Moroedd Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r weledigaeth o gael moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol. I wireddu'r weledigaeth hon, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu nifer o ffrydiau gwaith rhyng-gysylltiedig sy'n darparu dull trosfwaol o reoli moroedd Cymru.

Drwy roi Cyfarwydddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE ar waith yn llwyr a chwblhau rhwydwaith ecolegol gydlynus o ardaloedd morol gwarchoddedig sy'n cael eu rheoli'n dda, byddwn yn darparu ecosystemau morol cydnerth. Bydd cyhoeddi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, ynghyd â'n rôl barhaus o ran y polisi trwyddedu morol, yn cefnogi twf morol cynaliadwy ac, fel rheolwr pysgodfeydd, byddwn yn parhau i ddarparu pysgodfeydd cynaliadwy, cynhyrchiol a ffyniannus. Mae nodau bras y gwaith hwn yn hollol gyson â'n hymrwymiaidau rhyngwladol, Ewropeaidd a domestig, gan gynnwys Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu strwythurau llywodraethu cadarn, ynghyd â dulliau o ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid, i lywio'r gwaith o lunio polisiau penodol a goruchwyllo'r camau i'w rhoi ar waith.

#### Y Cynllun Morol

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n paratoi'r cynllun cyntaf erioed ar gyfer ein moroedd. Cynhelir ymgynghoriad ffurfiol ar fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru dros yr haf. Mae'r Cynllun Morol yn cydnabod pwysigrwydd ein moroedd i bobl Cymru a'r rôl y maent yn ei chwarae i gefnogi llesiant. Ar ôl iddo gael ei fabwysiadu, bydd y Cynllun Morol yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer defnyddio moroedd Cymru, gan ddarparu fframwaith cyffredinol i reoli gweithgareddau morol mewn ffordd gynaliadwy. Bydd yn llywio'r holl benderfyniadau a wneir ynghylch yr ardal forol er mwyn gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael, cefnogi twf glas<sup>1</sup>, a lleihau'r effeithiau andwyol ar y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd, gan gynnwys yr effeithiau andwyol ar safleoedd gwarchoddedig.

Bydd yn cymryd peth amser i gynllunio morol ennill ei blwyf yn llwyr, ond mae Llywodraeth Cymru'n gweithio mewn ffordd ragweithiol gyda'r rheini sy'n defnyddio'r môr a'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau yn ei gylch i sicrhau y bydd y cynllun yn cael ei roi ar waith yn effeithiol ar ôl iddo gael ei gwblhau a'i fabwysiadu.

---

<sup>1</sup> Twf cynaliadwy'r sectorau morol.

## Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol

Yn unol â Chyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE, mae'n ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau roi mesurau ar waith i ennill neu i gynnal Statws Amgylcheddol Da yn eu moroedd erbyn 2020. Mae Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn darparu fframwaith i reoli'r amgylchedd morol mewn ffordd gynaliadwy, ac mae'n peri iddi fod yn ofynnol rheoli gweithgareddau dynol drwy ddull sy'n seiliedig ar ecosystemau.

O safbwynt ymarferol, mae ennill Statws Amgylcheddol Da yn golygu bod dyfroedd morol mewn cyflwr sy'n cefnogi cefnforoedd a moroedd ecolegol amrywiol a dynamig oherwydd eu bod yn lân, yn iach ac yn gynhyrchiol o fewn hyd a lled eu hamodau cynhenid. Sefydlu rhwydwaith cydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig sy'n cael eu rheoli'n dda yw un o'r prif fesurau i ennill Statws Amgylcheddol Da. Mae ennill Statws Amgylcheddol Da hefyd yn golygu bod yr amgylchedd morol yn cael ei ddefnyddio a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy sydd hefyd yn diogelu defnydd a gweithgareddau posibl y cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Bydd y Cynllun Morol yn gyfrwng pwysig i ennill Statws Amgylcheddol Da oherwydd bydd yn darparu fframwaith trosfwaol yng Nghymru i reoli'r amgylchedd morol mewn ffordd gynaliadwy, gan gefnogi llu o fanteision i'r economi, yr amgylchedd a'n cymunedau yn awr ac yn y dyfodol.

### **Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig Cymru**

#### Y Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig

Ar hyn o bryd, ceir 132 o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn nyfroedd Cymru a, gyda'i gilydd, maent yn ffurfio rhwydwaith o safleoedd o amgylch Cymru ac yn cyfrannu at y rhwydwaith ehangach o safleoedd o amgylch y DU ac yng ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd. Mae Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU wedi'u rhwymo gan amryw o gytundebau rhyngwladol a'u rhwymedigaethau cyfreithiol i greu rhwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig sy'n cael eu rheoli'n dda, gan gynnwys Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol a Rhan 5 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Mae'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru'n cynnwys gwahanol fathau o safleoedd, gan gynnwys:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Safleoedd Ramsar (gwlyptiroedd o bwys rhyngwladol)
- Parthau Cadwraeth Morol

Yn rhwydwaith Cymru, ceir amrywiaeth eang o gynefinoedd, rhywogaethau ac adar, gan gynnwys rhai poblogaethau o bwys byd-eang, fel tua 57% o boblogaeth y byd o adar drycin Manaw. Gall llawer o weithgareddau gydfodoli â'r gwaith o warchod nodweddion morol (cynefinoedd, rhywogaethau ac

adar), ac maent yn gwneud hynny. Yn hytrach nag atal neu rwystro unrhyw weithgaredd neu bob gweithgaredd mewn ardaloedd gwarchoddedig, pwrpas y gwaith o reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yw sicrhau bod gweithgareddau'n digwydd mewn ffordd sy'n caniatáu i'r ardaloedd gwarchoddedig a'u nodweddion ennill neu gadw statws cyflwr ffafriol.

Mae rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig sy'n cael ei reoli'n effeithiol ac sydd mewn cyflwr ffafriol, neu'n agosáu at fod mewn cyflwr ffafriol, yn chwarae rôl bwysig o ran sicrhau bod gennym ecosystemau morol cysylltiedig a chydnerth sy'n cefnogi cymunedau'r arfordir, yn ogystal â llesiant pobl Cymru a'r rheini sy'n ymweld â'n glannau. Mae cyflwr nodweddion ein rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn amrywio ar hyn o bryd, ond rydym yn gwybod bod y safleoedd yn gallu cefnogi poblogaethau pwysig o adar a mamaliaid y môr. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n paratoui adroddiadau dangosol am gyflwr ein holl Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, a byddant ar gael yn yr haf.

Mae Gweinidogion Cymru'n ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod ein Hardaloedd Morol Gwarchoddedig yn cael eu rheoli'n effeithiol. Fodd bynnag, nid dim ond un sefydliad sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros reoli'r ardaloedd hyn. Mae nifer o sefydliadau a elwir yn awdurdodau rheoli'n gyfrifol am eu rheoli, gan fod ganddynt rwymedigaethau statudol i reoli ein moroedd neu'u bod yn berchen ar ddarnau sylweddol o dir ar yr arfordir neu ar wely'r môr.

### Y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig

Bu i Lywodraeth Cymru sefydlu'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn 2014 i ddod â phrif awdurdodau rheoli Cymru ynghyd i hybu'r gwaith o reoli'r Ardaloedd Morol Gwarchoddedig ac i gadw llygad strategol ar y gwaith. Mae'r Grŵp Llywio'n cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, cyrff dŵr a charthffosiaeth, ac awdurdodau porthladdoedd a harbyrau. Mae Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig<sup>2</sup> hefyd yn aelod o'r grŵp i roi cyngor a chymorth technegol. Anogir aelodau'r Grŵp Llywio i rannu ac i ledaenu'r prif negeseuon sy'n deillio o'r cyfarfodydd a'r penderfyniadau a wneir ar draws eu rhwydweithiau.

Hyd yma, mae'r Grŵp Llywio wedi ystyried nifer o ddarnau gwaith, a chytuno arnynt. Mae wedi cytuno ar weledigaeth ar gyfer ei waith:

*“Sicrhau bod yr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yng Nghymru yn cael eu rheoli'n effeithiol a'u gwella drwy gynorthwyo i roi camau i reoli'r Ardaloedd Morol Gwarchoddedig ar waith i ddiogelu bioamrywiaeth forol, yr ecosystem ehangach, a'r manteision economaidd-gymdeithasol i Gymru.”*

---

<sup>2</sup> Swyddog a gyflogir yn lleol gan yr awdurdod rheoli sy'n gyfrifol am safle penodol er mwyn cydgysylltu'r camau gweithredu lleol ar safle penodol.

Mae'r Grŵp Llywio wedi llunio gwybodaeth ategol i atgoffa'r awdurdodau rheoli ledled Cymru o'u rhwymedigaethau statudol o ran rheoli'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae'r grŵp wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid i bwysu a mesur yr opsiynau i reoli ein Hardaloedd Morol Gwarchodedig fel rhwydwaith drwy ddull sy'n seiliedig ar ardaloedd. Yng ngoleuni'r pwysau ariannol presennol, daeth y grŵp i'r casgliad y byddai'n ormod o her i'r awdurdodau rheoli perthnasol gael gafael ar yr adnoddau y byddai eu hangen i gyflwyno dull o'r fath a'i roi ar waith ledled Cymru.

Mae'r Grŵp Llywio wedi cytuno i ganolbwyntio ar ddarparu cymorth ac arweiniad i'r awdurdodau rheoli i hwyluso gwelliannau i gyflwr rhywogaethau, cynefinoedd a'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn ei gyfanrwydd. Mae hyn yn cynnwys pennu cyfleoedd i'r awdurdodau rheoli gydweithio i gyflawni gwell canlyniadau ar gyfer ein Hardaloedd Morol Gwarchodedig.

### Gwella cyflwr safleoedd

Bu i Raglen Natura 2000 2012-2015 a ariannwyd gan LIFE nodi'r prif heriau sy'n wynebu safleoedd gwarchodedig Cymru a'r camau i'w cymryd i wella cyflwr y safleoedd a'r nodweddion. Drwy ei Brosiect Gwella Cyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n mynd ati i flaenoriaethu'r camau hyn i lunio rhaglen waith y bydd yr awdurdodau rheoli ac eraill yn rhan ohoni ac a fydd yn canolbwyntio ar y camau y disgwylir iddynt gael yr effaith fwyaf o ran gwella cyflwr.

Mae'r Prosiect wedi pennu pum prif faes gwaith:

- Mynediad a hamdden;
- Rhywogaethau goresgynnol;
- Pysgodfeydd morol;
- Llygredd a gwastraff;
- Materion rheoli dŵr.

Bydd gan y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig rôl o ran pennu pa rai o'r camau rheoli sy'n flaenoriaeth ar lefel genedlaethol, ar lefel amlsafle ac ar lefel safleoedd unigol y gall yr awdurdodau rheoli eu rhoi ar waith yn llwyddiannus gyda'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Gallai'r trafodaethau bennu cyfleoedd pellach i gydweithio ar gamau rheoli sy'n flaenoriaeth ar lefel amlsafle ac ar lefel genedlaethol i wella cyflwr nodweddion.

### Y broses reoleiddio

Mae awdurdodau rheoli'n rheoli safleoedd drwy'r broses caniatâd rheoleiddiol yn bennaf. Caiff cynlluniau, ynghyd ag unrhyw fesurau lliniaru, eu hasesu drwy Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Diben asesiad o'r fath yw cynnal uniondeb yr Ardal Forol Warchodedig. O ganlyniad i asesiad o'r fath, gall fod angen rhoi mesurau cydbwysu ar waith i sicrhau cydlyniant y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig cyn bod modd cymeradwyo'r prosiect.

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried yr angen i gyflawni asesiadau o'r fath fel rhan o'i rôl i reoli mynediad at bysgodfeydd masnachol penodol a'r defnydd ohonynt (er enghraifft cyn agoriad blynyddol y pysgodfeydd cocos a chregyn gleision ledled Cymru). Yn 2016-17, cyflawnodd Llywodraeth Cymru 30 asesiad o'r fath ar gyfer prosiectau a oedd yn gysylltiedig â physgodfeydd.

Mae'r system trwyddedu morol y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei rhoi ar waith ar ran Gweinidogion Cymru hefyd yn ystyried yr effaith ar yr amgylchedd morol a'r Ardaloedd Morol Gwarchoddedig. Caiff prosiectau y mae angen trwydded forol ar eu cyfer eu hasesu, lle bo angen, yn unol â Chyfarwydddebau'r UE, gan gynnwys y Gyfarwydddeb Asesu Effaith Amgylcheddol, y Cyfarwydddebau Cynefinoedd ac Adar, a'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.

Mae'r system trwyddedu morol yng Nghymru, o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, yn berthnasol i ystod eang o weithgareddau yn nyfroedd Cymru. Yn eu plith mae:

- gosod sylweddau neu wrthrychau yn y môr, neu ar wely'r môr neu oddi tano;
- codi sylweddau neu wrthrychau o wely'r môr;
- prosiectau adeiladu yn y môr neu drosto, neu ar wely'r môr neu oddi tano;
- carthu o bob math.

Gall hyd a lled gwaith morol amrywio'n fawr, o dynnu gwaddodion at ddibenion samplu i ddatblygiadau mawr, gan gynnwys gosod tyrbinau llanw neu dyrbinau gwynt, amddiffynfeydd arfordirol, gosod ceblau, a chodi agregau. Rhaid cael trwydded forol cyn cychwyn ar y gwaith.

### **Gwaith Llywodraeth Cymru fel Awdurdod Rheoli**

Yn ogystal â gweithio gyda'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig, mae gan Lywodraeth Cymru rôl fel awdurdod rheoli yn ei rhinwedd ei hun. Isod, nodir rhai enghreifftiau o'n gwaith.

#### Treillio am gregyn bylchog ym Mae Ceredigion

Ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phenderfyniad i gyflwyno mesurau rheoli newydd ar gyfer pysgota cregyn bylchog ym Mae Ceredigion. Gwnaed y penderfyniad hwn yn sgil proses ymgynghori eang lle daeth dros 5,500 o ymatebion i law. Mae'r penderfyniad, sy'n pennu strategaeth glir ar gyfer rheoli'r bysgodfa cregyn bylchog mewn ffordd gynaliadwy, yn seiliedig ar ymchwil wyddonol helaeth. Yr astudiaeth dwysedd a barodd ddwy flynedd gan Brifysgol Bangor oedd yr astudiaeth gyntaf o'i bath, ac mae wedi cael ei chydnabod fel ymchwil wyddonol o safon byd. Mae arbenigwyr rhyngwladol wedi cyflawni adolygiad cymheiriaid o'r ymchwil hon a phenderfynu bod y dystiolaeth a'r casgliadau y daeth Bangor iddynt yn wyddonol gadarn ac o ansawdd uchel. Rydym yn deall bod yr ymchwil hon ar fin cael ei chyhoeddi mewn cyfnodolion gwyddonol nodedig.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno cynllun trwydded hyblyg ar gyfer treillio am gregyn bylchog yn Ardal Cadwraeth Arbennig Bae Ceredigion lle bydd ardal fach o'r Ardal Cadwraeth Arbennig yn cael ei hagor bob blwyddyn ar sail cylchdro. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gregyn Bylchog sy'n cynnwys grwpiau gwyddonol, grwpiau o'r diwydiant a grwpiau amgylcheddol i bennu'r mesurau rheoli angenrheidiol. Bydd y mesurau'n destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd maes o law, cyn iddynt gael eu cyflwyno a chyn i'r bysgodfa gael ei hagor. Bydd y drwydded yn destun amodau i sicrhau bod y bysgodfa'n cael ei rheoli'n ofalus ac yn rhagweithiol, a bod cyfyngiadau'n cael eu diwygio ar sail tystiolaeth gadarn a gesglir ynghylch y bysgodfa.

Pan fydd y ddeddfwriaeth newydd yn ei lle, bydd Bwrdd Cynghori'r Rheolwyr, a fydd hefyd yn cynnwys grwpiau gwyddonol, grwpiau o'r diwydiant a grwpiau amgylcheddol, yn cael ei sefydlu i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar yr amodau y mae angen eu pennu ar gyfer y drwydded bob blwyddyn. Bydd hyn yn sicrhau bod partneriaid yn rhan o'r gwaith o reoli'r bysgodfa cregyn bylchog yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu rhywogaethau a nodweddion dynodedig o fewn yr Ardal Cadwraeth Arbennig, ac mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, yn ogystal â Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n torri tir newydd, yn ein rhwymo i wneud hynny. Drwy roi mesurau rheoli cynaliadwy effeithiol ar waith, bydd pysgodfa cregyn bylchog Bae Ceredigion yn parhau i fod o fudd i gymunedau'r arfordir, a byddwn hefyd yn parchu ein hamgylchedd yn awr ac yn y dyfodol. Rydym yn bwriadu rhoi deddfwriaeth newydd ar waith mewn pryd ar gyfer agor y bysgodfa ym mis Tachwedd 2017.

### Prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru i gynnal gwerthusiad strwythuredig o weithgareddau pysgota a'r modd y maent yn rhyngweithio â nodweddion Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Diben y gwaith hwn yw sicrhau ein bod yn diogelu ein rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig, cyfrannu at ddefnyddio pysgod môr mewn ffordd gynaliadwy, a sicrhau bod yr amgylchedd morol yn fwy sefydlog drwy ddarparu gwaith, bwyd a thwristiaeth. Mae'r prosiect hwn yn cefnogi amcanion Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar yr UE. Cyfeirir ato fel Prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgota Cymru.

Mae'r prosiect yn ystyried yr holl weithgareddau pysgota morol masnachol sy'n digwydd yn nyfroedd Cymru ar hyn o bryd ac a allai ddigwydd ynddynt yn y dyfodol (hyd at 12 milltir forol), ynghyd â'r modd y maent yn rhyngweithio â nodweddion morol Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Nid yw'r prosiect yn cynnwys pysgota hamdden, gweithgareddau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, na gweithgareddau sy'n atodol i weithgareddau pysgota masnachol.

Bu cam cyntaf y prosiect, sydd wedi'i gwblhau erbyn hyn, yn ystyried y gwaith a wnaed gan weinyddiaethau eraill y DU o ran y rhyngweithio rhwng offer pysgota a nodweddion. Bu iddo deilwra'r wybodaeth i gyd-destun Cymru a chynnwys ffynonellau tystiolaeth newydd. Dyma allbynnau'r gwaith hwn:

- 'Matrics Cymru' sy'n nodi'r risg sydd ynghlwm wrth bob rhyngweithiad rhwng offeryn pysgota a nodwedd, ac sy'n blaenoriaethu'r rhyngweithiadau i'w hasesu ymhellach, gan gynnal llwybr archwilio clir;
- Cronfa Ddata Tystiolaeth sy'n crynhoi'r dystiolaeth berthnasol am effaith pob rhyngweithiad rhwng offeryn pysgota a nodwedd;
- Dogfen Egwyddorion a Blaenoriaethau.

Cafodd 'Matrics Cymru' ei wirio yn erbyn Matrcis Lloegr (MMO, 2014) ac fe'i hadolygwyd i sicrhau bod yr holl weithgareddau a'r holl offer pysgota sy'n berthnasol i Gymru yn cael eu hystyried a'u cynnwys. Mae'r Matrics yn un cyffredinol, ac mae'n rhoi ystyriaeth lefel uchel i'r risg y mae gwahanol fathau o offer yn ei pheri i gynefinoedd a rhywogaethau a warchodir gan Gyfarwydddebau Cynefinoedd ac Adar yr UE. Mae'n darparu cyfres o gamau tryloyw i helpu i flaenoriaethu rhyngweithiadau i'w hasesu ymhellach. Mae hyn yn darparu dull o flaenoriaethu sy'n seiliedig ar risg, a bydd yn sicrhau bod modd cyflawni asesiadau'n raddol. Bydd yr asesiadau'n cael eu cyflawni yn ystod ail gam y prosiect.

Mae ail gam y prosiect yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac, fel rhan o'r cam hwn, mae'r gweithgareddau a gafodd eu pennu fel rhai risg uchel yn cael eu hasesu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n arwain y gwaith o gyflawni asesiadau ail gam y prosiect ar ran Llywodraeth Cymru fel rheolwr y pysgodfeydd. Mae'r asesiadau'n cael eu cyflawni drwy gydweithio'n agos â swyddogion gwyddonol Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru.

Ar ôl iddynt gael eu cwblhau, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried yr asesiadau ac yn penderfynu a oes angen mabwysiadu a chyflwyno datrysiadau rheoli priodol. Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig i'r mesurau rheoli'n destun Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd pellach gan Lywodraeth Cymru fel rheolwr y pysgodfeydd a Chyfoeth Naturiol Cymru sy'n gweithredu fel cynghorydd cadwraeth natur statudol.

### Gorfodi morol

Mae Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am orfodi holl ddeddfwriaeth pysgodfeydd yr UE, y DU a Chymru yng Nghymru ac ym Mharth Cymru<sup>3</sup>. Mae hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r ardal rhynglanw ar hyd ein harfordir. Yn yr ardal hon, ceir nifer sylweddol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a nodweddion gwarchoddedig. Mae'r Swyddogion Gorfodi Morol hefyd yn gorfodi'r system trwyddedu morol yn nyfroedd Cymru.

---

<sup>3</sup> Parth Cymru yw'r ardal o foroedd tiriogaethol y DU sydd tu hwnt i ddyfroedd Cymru, hyd at y llinell ganol â Gweriniaeth Iwerddon ac Ynys Manaw, lle mae Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros bysgota, rheoleiddio pysgodfeydd ac iechyd pysgod.

Gan ddefnyddio'r ystod o offerynnau sydd ar gael i ni, er enghraifft system adrodd electronig, systemau monitro cychod, llongau patrolio pysgodfeydd, a swyddogion gorfodi ar y glannau, mae Is-adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru'n mynd ati i orfodi'r rheolau a'r rheoliadau sydd ar waith i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y stoc pysgod ac i warchod cynefinoedd sensitif rhag iddynt gael eu hecsbloetio'n anghyfreithlon. Pan geir hyd i droseddau, rydym yn ymchwilio iddynt ac yn cymryd camau cymesur lle bo angen. Gall hyn gynnwys rhoi cyngor ar lafar neu gyngor ysgrifenedig, rhoi rhybudd ysgrifenedig swyddogol, ac erlyn os oes angen.

Yn ystod 2016, bu i'r Is-adran erlyn 11 o achosion yn llwyddiannus drwy'r llysoedd. Roedd naw o'r achosion hyn yn ymwneud â throseddau y cafwyd hyd iddynt mewn Ardal Cadwraeth Arbennig neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Rhoddwyd chwe rhybudd ysgrifenedig swyddogol hefyd, ac mae nifer o achosion yn aros i gael eu cymeradwyo i'w dwyn drwy'r llysoedd.